Department
for Education

# Ymgynghoriad - Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2014

## Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ac Ymateb y Llywodraeth

Mawrth 2014

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus 3

Pam yr ymgynghorodd yr Adran ar y rheoliadau ar gyfer y TPS diwygiedig 3

Y broses ymgynghori 4

Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth 5

Cwestiynau ac ymatebion i'r ymgynghoriad 6

Ymateb cyffredinol y Llywodraeth 6

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad 9

Atodiad C: Materion/themâu cyffredin a godwyd 16

## Cyflwyniad

### Diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus

1. Yn dilyn argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (y Comisiwn), a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Hutton o Furness, mae pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy yn yr hirdymor, ac yn decach i aelodau a'r trethdalwr. Mae pobl yn byw yn llawer hwy, ar gyfartaledd, ddeng mlynedd yn hirach nag yn y 1970au. Mae hyn yn golygu bod cost darparu pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys pensiynau athrawon, wedi cynyddu draean yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Er gwaethaf diwygiadau diweddar, mae'r rhan fwyaf o'r costau hynny yn cael eu talu gan drethdalwyr.

2. Ar 9 Mawrth 2012, cyhoeddodd yr Adran Addysg (yr Adran) Gytundeb Terfynol Arfaethedig (PFA) a nododd y fframwaith ar gyfer Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS) diwygiedig. Ymhlith darpariaethau allweddol y cynllun diwygiedig mae'r canlynol: pensiwn yn seiliedig ar enillion cyfartalog gyrfa gyfan; cyfradd gronni o 1/57fed; ac Oedran Pensiwn Arferol (NPA) sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond gydag opsiynau i alluogi aelodau'r cynllun i ymddeol yn gynharach neu'n ddiweddarach na'u NPA.

3. Yn dilyn ystyriaeth fanwl, a thrafodaethau gyda grwpiau cynrychioliadol, ar 7 Mai 2013, lansiodd yr Adran ymgynghoriad ar ei chynigion polisi ar gyfer rhoi'r PFA ar waith. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 28 Mehefin ac ar 13 Medi, cyhoeddodd yr Adran ei hymateb i'r ymgynghoriad.

4. Mae manylion llawn y PFA, yr ymgynghoriad polisi ac ymateb y Llywodraeth iddo ar gael yn:

   http://www.education.gov.uk/schools/careers/payandpensions/b00204965/proposed-teacher-pension-scheme-reforms

5. Bydd y diwygiadau i'r TPS yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn un o'r rhai gorau sydd ar gael – gyda lefelau gwarantedig o fuddiannau a diogelwch rhag chwyddiant. Bydd yn rhoi pensiwn cynaliadwy o ansawdd uchel i aelodau sy'n adlewyrchu eu gwasanaeth gwerthfawr i fyd addysg, a bydd yn helpu cyflogwyr i barhau i recriwtio a chadw athrawon ardderchog.

### Pam yr ymgynghorodd yr Adran ar y rheoliadau ar gyfer y TPS diwygiedig

6. Ar 13 Mai 2013, cyhoeddodd yr Adran y ddogfen ymgynghori, Ymgynghoriad - Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2014. Caiff y TPS ei weithredu drwy reoliadau ac roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys drafft o Reoliadau Cynllun Pensiynau Athrawon 2014 gan nodi manylion sut y dylai'r TPS diwygiedig weithredu.

7. Mae'r rheoliadau yn cyflwyno darpariaethau ar gyfer gweithredu'r cynllun diwygiedig fel y'i nodir yn y PFA ac fel yr ymgynghorwyd arno rhwng 7 Mai a 28 Mehefin 2013. Maent hefyd yn cynnwys y newidiadau hynny i'r cynigion ar gyfer gweithredu a ddeilliodd o'r broses o ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

8. Mae'r ddau ymgynghoriad yn gamau allweddol yn y broses o ddiwygio pensiynau'r sector cyhoeddus a ddechreuodd gydag ymrwymiad y Llywodraeth i adolygu

fforddiadwyedd a chynaliadwyedd hirdymor cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Diben yr ymgynghoriad diweddaraf hwn oedd canolbwyntio ar effeithiolrwydd y rheoliadau drafft wrth roi'r Cynllun Pensiynau Athrawon diwygiedig ar waith. Nid oedd a wnelo â manylion y PFA na'r cynigion ar gyfer gweithredu yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol, a gafodd eu hystyried eisoes.

## Y broses ymgynghori

9. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 13 Medi 2013 a 11 Tachwedd 2013. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan yr Adran a gellid dychwelyd ymatebion i'r Adran Addysg drwy e-bost neu drwy'r post.

10. Ar ôl cael eu cyhoeddi, anfonwyd manylion yr ymgynghoriad at bob grŵp rhanddeiliaid a chorff cynrychioliadol allweddol, gan gynnwys undebau athrawon a chymdeithasau cyflogwyr. Sicrhaodd yr Adran hefyd fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi mewn man amlwg ar wefan gweinyddwr y cynllun (Teachers' Pensions), a'i bod yn hawdd i aelodau a chyflogwyr gael mynediad iddi drwy glicio ar ddolen. At hynny, aeth yr Adran ati i ymgysylltu ag undebau a chyflogwr a chyfarfod â hwy cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori.

## Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth

11. Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion sylweddol. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan athrawon a phenaethiaid, undebau athrawon, cymdeithasau cyflogwyr, colegau a rhanddeiliaid eraill, fel a ganlyn:

| Math o Ymatebydd | Ymatebion | |
|---|---|---|
| Pennaeth/Athro: | 13 | 41% |
| Undeb Llafur: | 7 | 22% |
| Ysgol | 1 | 3% |
| Cymdeithas Cyflogwyr | 4 | 13% |
| Sefydliadau Ffydd | 1 | 3% |
| Awdurdodau Lleol a Chynghorau: | 1 | 3% |
| Arall | 5 | 15% |
| **Cyfanswm:** | | **100%** |

Mae'r ymatebion yn y categori 'arall' yn cynnwys ymatebion gan weinyddwr pensiwn, darparwr pensiwn/yswiriant ac ymatebion gan gyflogwyr TPS y tu allan i'r sector ysgolion.

12. Mae'r Adran wedi ystyried pob ymateb a nodir crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd, ynghyd â safbwynt terfynol yr Adran, isod.

13. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gywirdeb y rheoliadau drafft o ran gweithredu'r cynigion ar gyfer rhoi'r TPS diwygiedig ar waith, gan gynnwys y diwygiadau yn dilyn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad cynharach. Serch hynny, nododd nifer sylweddol o'r ymatebwyr (19) unwaith eto eu gwrthwynebiad i unrhyw gynigion i ddiwygio cynlluniau'r sector cyhoeddus, a dyluniad cyffredinol y TPS diwygiedig, fel y'u nodir yn y PFA ar gyfer y TPS. Roedd yr honiadau yn cynnwys nad oes angen newid strwythur presennol y TPS; bod y TPS fel mae'n sefyll ar hyn o bryd yn fforddiadwy ac yn deg; nad oes angen newid cyfraddau cyfraniadau; ac nad yw'n briodol symud yr NPA i athrawon i'r SPA o ystyried y gofynion sy'n gysylltiedig ag addysgu.

14. Mae'r Adran yn cydnabod bod gwrthwynebiad i'r cynigion cyffredinol ar gyfer diwygio'r TPS. Fodd bynnag, mae'r Adran o'r farn bod yr Arglwydd Hutton wedi nodi'r achos o blaid newid yn glir. Noda hefyd y bu cryn drafod a negodi mewn perthynas â'r mater. Yn wir, ystyriwyd pob un o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn fel rhan o'r trafodaethau hynny, ac ym mis Mawrth 2012 cyhoeddodd y Llywodraeth ei safbwynt terfynol ar ddiwygio'r TPS. Nododd y PFA a gyhoeddwyd bryd hynny strwythur y TPS diwygiedig, trefniadau ar gyfer diogelu'r rhai sy'n agosáu at oedran ymddeol yn ogystal â'r buddion y mae pob aelod wedi'u cronni yn y cynllun presennol. Ychwanegodd yr ymgynghoriad ar weithredu'r cynigion, a gynhaliwyd yn gynharach eleni, at hynny drwy ddarparu manylion am sut y bydd y TPS diwygiedig a'r camau diogelu yn gweithredu.

15. Er bod yr Adran yn cydnabod y sylwadau a wnaed yn gwrthwynebu'r diwygiadau cyffredinol, mae'n parhau o'r farn eu bod yn angenrheidiol ac yn briodol ac mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar adborth a gafwyd gan ymatebwyr ar reoliadau drafft yr Adran.

## Cwestiynau ac ymatebion i'r ymgynghoriad

16. Gofynnodd yr Adran am safbwyntiau rhanddeiliaid ar y rheoliadau drafft, yn arbennig, eu cywirdeb o ran gweithredu'r cynigion ar gyfer rhoi'r TPS diwygiedig ar waith, gan gynnwys y diwygiadau yn dilyn ymateb yr Adran i'r ymgynghoriad cynharach.

17. Roedd yr ymatebion yn dueddol o syrthio i un o'r pedwar maes canlynol.

    i. Ymholiadau ac awgrymiadau mewn perthynas â rheoliadau unigol neu rannau ohonynt. Codwyd y rhain gan nifer o ymatebwyr, a cheir crynodeb ohonynt yn Atodiad B atodedig, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth iddynt.

    ii. Pryderon am agweddau ehangach ar y rheoliadau (e.e. trefniadau mynediad) neu faterion sy'n effeithio'n gyffredinol ar y rheoliadau (materion cydraddoldeb). Yn y rhan fwyaf o achosion, roeddent yn faterion a godwyd gan fwy nag un ymatebwr, ac ymdrinnir â hwy yn Atodiad C atodedig, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth iddynt.

    iii. Awgrymiadau ar gyfer geiriad amgen ar gyfer rheoliadau penodol, h.y. meysydd lle roedd ymatebwyr o'r farn y byddai newid y geiriad yn darparu eglurder ac yn gwella dealltwriaeth. Mae'r Adran wedi ystyried yr awgrymiadau hyn lle y bo'n briodol, a bydd yn sicrhau y caiff y rheoliadau eu hategu gan ganllawiau a chymorth addas er mwyn sicrhau y gall aelodau a chyflogwyr ddeall a defnyddio'r trefniadau newydd yn effeithiol. Mae'r Adran yn gweithio'n agos gyda gweinyddwr y cynllun (Teachers' Pensions) ar hynny, gan sicrhau y caiff yr hyn sydd ei angen ei ddarparu o fewn cyd-destun cynllun cyfathrebu cyffredinol.

    iv. Materion a diwygiadau awgrymedig a oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Cododd nifer o unigolion a sefydliadau newidiadau awgrymedig mewn perthynas â rhannau o'r trefniadau presennol nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r diwygiadau. Er enghraifft, gofyn p'un a ellid diwygio trefniadau trosglwyddo hanesyddol mewn ffordd ôl-weithredol er mwyn cynnwys sefyllfa benodol, neu p'un a ellid diwygio trefniadau mynediad ar gyfer mathau penodol o weithwyr addysg. Mae'r Adran wedi ystyried yr ymatebion hynny ar wahân a, lle y bo'n briodol, bydd yn ymateb yn uniongyrchol i'r unigolion a'r sefydliadau dan sylw.

## Ymateb cyffredinol y Llywodraeth

18. Mae'r Adran yn ddiolchgar am y sylwadau a gafodd gan ymatebwyr. Maent yn ddefnyddiol iawn ac o gymorth wrth asesu effeithiolrwydd y rheoliadau drafft.

19. Ystyriwyd yr holl sylwadau ar gynnwys y rheoliadau a bydd yr Adran yn gwneud diwygiadau addas i'r rheoliadau lle y bo'n briodol (fel y'u manylir yn y ddogfen hon). Mae'n ymwybodol bod angen nifer o newidiadau i brosesau a threfniadau, y mae rhai ohonynt yn sylweddol. Yn ogystal, mae'n ymwybodol y bydd camau gweithredu/gwaith ychwanegol i gyflogwyr mewn rhai meysydd (e.e. o ran cynnal data a rheoli hyblygrwydd o fewn y cynllun). Wrth bennu'r trefniadau, mae'r Adran wedi sicrhau y cyflwynir cyn lleied o ddyletswyddau newydd â phosibl, a bydd yn

sicrhau y bydd pob rhanddeiliad yn cael cymorth ac arweiniad digonol er mwyn helpu i sicrhau y caiff y trefniadau newydd - sydd, wrth gwrs, wedi'u cynllunio i sicrhau cyfnod trosglwyddo mor ddidrafferth â phosibl, ac i ddarparu trefniadau pensiwn da i athrawon yn y dyfodol - eu gweithredu a'u defnyddio'n effeithiol.

20. Fel y nodir uchod, noda'r Adran nad yw nifer sylweddol o'r rheini a ymatebodd, yn enwedig mwyafrif o'r undebau a'r athrawon unigol a ymatebodd, yn cytuno â'r achos cyffredinol dros ddiwygio, a bod o leiaf un ymatebwr o'r farn na ddylid gweithredu'r rheoliadau gan nad yw o'r farn bod y newidiadau yn briodol nac yn deg.

21. Yn unol â pharagraffau 14 ac 15 uchod, mae'r Adran yn parhau o'r farn bod yr achos dros newid wedi'i brofi. O ran tegwch a chydraddoldeb, mae'r Adran o'r farn ei bod hi a rhannau eraill o'r Llywodraeth, gan gynnwys Trysorlys EM, wedi llwyddo i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o ran y newidiadau arfaethedig. Yn arbennig, mae'r Adran o'r farn bod y trefniadau wedi rhoi ystyriaeth addas i'r angen i: sicrhau bod y TPS yn fwy cynaliadwy; cyflwyno newidiadau mewn ffordd nad yw'n golygu bod aelodau nad oes ganddynt lawer o amser i ddiwygio eu cynlluniau cynilo pensiwn ac ymddeol o dan anfantais annheg; a, sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn deg i aelodau ac i drethdalwyr.

22. Fel rhan o hynny, mae'r Adran yn parhau o'r farn bod y newidiadau yn golygu y bydd gan bob aelod y cyfle i gronni pensiwn da, a phensiwn sy'n cymharu'n ffafriol â'r goreuon sydd ar gael mewn mannau eraill. At hynny, na fydd y trefniadau yn golygu bod y rheini o grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol o dan anfantais. Yn wir, bydd y trefniadau newydd yn sicrhau bod pob aelod yn cael adenillion tebyg o ran swm y pensiwn a fydd yn cronni ar gyfer pob £1 a gaiff ei chyfrannu ganddynt, nad yw bob amser yn wir o dan y trefniadau cyflog terfynol presennol.

# Y camau nesaf

23. Caiff y rheoliadau drafft eu diwygio lle y bo'n briodol gan ystyried y sylwadau o'r ymgynghoriad. Y nod yw llunio'r rheoliadau terfynol er mwyn eu cyflwyno ger bron y Senedd ddechrau mis Mawrth 2014.

24. Bydd y rheoliadau hefyd yn cynnwys manylion am sut y caiff trosglwyddiadau eu rhoi ar waith, ar ôl i Drysorlys EM gyflwyno'r polisi terfynol. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys manylion sut y bydd clwb trosglwyddo'r sector cyhoeddus yn parhau i weithredu a sut y bydd y trefniadau hynny yn diogelu aelodau er mwyn sicrhau na fydd materion sy'n ymwneud â phensiynau yn eu hatal rhag symud ar draws y gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, ni fydd y rheoliadau yn cynnwys manylion am y trefniadau ar gyfer trosglwyddo rhwng y TPS a chynlluniau pensiynau athrawon eraill ym Mhrydain Fawr a'r Deyrnas Unedig ('gwasanaeth cymaradwy ym Mhrydain a'r Deyrnas Unedig'). Caiff y trefniadau hynny eu hystyried ymhellach, gyda'r cynlluniau a'r rhanddeiliaid perthnasol, ac ymdrinnir â hwy yn y rheoliadau a gaiff eu cyflwyno ger bron y Senedd ym mis Medi 2014 (gweler isod am ragor o fanylion).

25. Er mwyn sicrhau cyflawnrwydd, caiff manylion am gyfraniadau eu cynnwys yn y rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn seiliedig ar drefniadau ar 1 Ebrill 2014 a chaiff y cyfraddau/trefniadau terfynol a fydd yn gymwys eu pennu ar ôl cwblhau'r prisiad diweddaraf o'r cynllun sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad pellach ar y cyfraddau/trefniadau terfynol arfaethedig yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

26. Er na fydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau yn dod i rym tan 1 Ebrill 2015, daw'r darpariaethau llywodraethu i rym o 1 Ebrill 2014. Bydd dechrau'r adran hon yn gynnar yn caniatáu i ni ddatblygu'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiynau'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPSPB) a Bwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPSAB) ymhellach. Byddwn hefyd yn gallu dechrau'r broses recriwtio a hyfforddi er mwyn sicrhau bod y ddau fwrdd yn gwbl weithredol erbyn i'r cynllun diwygiedig gael ei roi ar waith ar 1 Ebrill 2015.

27. Bydd gwaith yn parhau, gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a Thrysorlys EM, i ddatblygu polisi ar feysydd allweddol nas cwmpesir gan y rheoliadau hyn. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys prisiadau cynlluniau a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010. Byddwn hefyd yn ystyried diweddaru'r rheoliadau ar wahân sy'n cwmpasu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a'r Trefniadau Ymddeol Cyn Pryd ar gyfer y TPS, yn ogystal â nifer o ddiwygiadau angenrheidiol i Reoliadau 2010 sy'n deillio o achosion a datblygiadau diweddar o ran y brif ddeddfwriaeth pensiynau.

28. Caiff ymgynghoriad pellach ar y meysydd polisi hyn ei lansio yn ddiweddarach yn 2014 gyda'r bwriad o gyflwyno rheoliadau ger bron y Senedd ym mis Medi 2014, er mwyn iddynt ddod i rym ar 1 Ebrill 2015. Y nod gyffredinol yw llunio'r rheoliadau terfynol cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl er mwyn caniatáu digon o amser i esbonio'r newidiadau a'u rhoi ar waith yn effeithiol.

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad
Ceir isod restr o'r bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad (heb gynnwys y rhai a gyflwynodd ymatebion cyfrinachol).

| **Sefydliad neu Berson** |
|---|
| Aquilaheywood (Gweinyddwr Pensiwn) |
| Cymdeithas y Colegau (Grŵp Cynrychioli Cyflogwyr) |
| Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgol a Choleg (Undeb) |
| Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (Undeb) |
| Chinn, Jonathan (Pennaeth/Athro) |
| Falzon, Alfred (Pennaeth/Athro) |
| Haines, C (Pennaeth/Athro) |
| Cymdeithas Bwrsariaid Ysgolion Annibynnol (Grŵp Cynrychioli Cyflogwyr) |
| Jellis, Sarah (Pennaeth/Athro) |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (Grŵp Cynrychioli Cyflogwyr) |
| Loxton, Paula (Pennaeth/Athro) |
| Loynes, Anya (Pennaeth/Athro) |
| Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid (Undeb) |
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri/Undeb yr Athrawesau (Undeb) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (Undeb) |
| Prudential (Cwmni Pensiwn/Yswiriant) |

| |
|---|
| Randall, John (Ysgol) |
| Tanner, Claire (Pennaeth/Athro) |
| Thomas, Chris (Pennaeth/Athro) |
| Thomas, Deborah (Awdurdod Lleol) |
| Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (Undeb) |
| Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau (Grŵp Cynrychioli Cyflogwyr) |
| VOICE (Undeb) |
| White, David (Pennaeth/Athro) |

# Atodiad B: Materion sy'n gysylltiedig â rheoliadau penodol

| Rhif y Rheoliad a Disgrifiad Ohono | Sylwadau a Wnaed ac Ymateb y Llywodraeth |
|---|---|
| 6 i 12 – Llywodraethu | Ymdrinnir â materion a godwyd mewn perthynas â Llywodraethu ac ymateb y Llywodraeth iddynt yn Atodiad C isod. |
| 22 – Nid yw'r gwasanaeth yn bensiynadwy oni thelir cyfraniadau safonol | Nododd nifer o undebau bryderon nad yw'r terfyn o dair blynedd o reidrwydd yn ddigon hir i ganiatáu cyfnod ad-dalu addas.<br>*Gall yr Adran gadarnhau bod y rheoliad fel y'i drafftiwyd yn adlewyrchu'r trefniadau presennol a'i fod yn rhoi disgresiwn i reolwr y cynllun beidio â chymhwyso'r rheoliad hwn/y terfyn tair blynedd lle bo hynny'n briodol oherwydd amgylchiadau achos penodol. Mae'r Adran o'r farn bod hynny'n darparu ar gyfer sefyllfaoedd fel y cyfeiriwyd atynt, lle bo cyfnod ad-dalu o fwy na thair blynedd yn briodol, ac nad oes angen newid drafftio. Fodd bynnag, bydd yn adolygu'r ddarpariaeth hon yn y dyfodol os bydd yn achosi problemau.* |
| 32 – Ystyr cyflogaeth "reolaidd" ac "afreolaidd" | Cododd un undeb bryderon ynghylch y defnydd o'r term cyflogaeth "afreolaidd", gan ddadlau ei fod yn amwys ac yn ddiangen a chan alw am ddileu'r ymdrech i wahaniaethu.<br>*Mae'r Adran yn cydnabod y pryderon hynny ond noda fod y term yn cael ei ddefnyddio yn y rheoliadau presennol ac mai diben y term yw cynnwys y rheini a gaiff eu cyflogi o dan gontract cyflogaeth ond sydd ond yn ymgymryd â gwaith ac yn cael eu talu am waith pan fydd y cyflogwr yn gofyn iddynt wneud hynny ac am gyfnodau a bennir gan y cyflogwr hwnnw. Mae angen gwahaniaethu yn y cynllun diwygiedig er mwyn sicrhau y gellir cyfrifo cyflog teg pan fydd unigolyn yn aelod mewn perthynas â mwy nag un swydd a phan fydd, er enghraifft, yn ymddeol ar sail salwch neu'n marw tra'n gweithio. Ar gyfer aelodau o'r fath, mae angen pennu'r 'cyflog terfynol', wrth bennu unrhyw gynnydd neu fudd-daliadau marwolaeth, drwy roi ystyriaeth briodol i'r cyflogau cyfwerth ag amser llawn perthnasol (fel y'u pennir gan y cyflogwr) a* |

| | |
|---|---|
| | *hyd gwasanaeth yr unigolyn ymhob swydd. Ni fydd unrhyw effaith ar y buddiannau 'arferol' a fydd yn cronni, oherwydd byddant yn uniongyrchol gysylltiedig â'r swm cyffredinol o gyflog a enillir bob blwyddyn. Yn y pen draw, mae'r Adran o'r farn y dylid parhau i ddefnyddio'r term "afreolaidd" ond mae wedi diwygio'r rheoliadau er mwyn sicrhau bod diben y gwahaniaethu hwn yn glir.* |
| 33 - Enillion pensiynadwy i athrawon ysgol. | Cododd nifer o'r ymatebwyr bryderon o ran p'un a yw'r diffiniad o enillion pensiynadwy yma yn ddigon helaeth i gwmpasu athrawon a gaiff eu cyflogi mewn academïau ac ysgolion rhydd.<br>*Gall yr Adran sicrhau'r ymatebwyr fod athrawon o'r fath wedi'u cwmpasu gan y diffiniad yn rheoliad 34, sy'n cwmpasu'r un amrediad o daliadau.* |
| 61-66 - Cyfrifon a seibiannau anghymwys | Awgrymodd un ymatebwr y dylai aelodau bob amser allu manteisio ar y gyfradd fynegrifo mewn swydd ar gyfer budd-daliadau cyfartaledd gyrfa cronedig pe byddent yn dychwelyd i weithio yn dilyn seibiant, hyd yn oed pan fo'r seibiant dros bum mlynedd. Dadleuodd fod y ddarpariaeth bresennol yn debygol o olygu bod athrawesau sy'n cymryd seibiant gyrfa i gael plant o dan anfantais. *Hoffai'r Adran nodi y gwnaed penderfyniad ynghylch y mater hwn pan bennwyd y fframwaith diwygio cyffredinol, ei fod yn berthnasol i bob cynllun gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, a'i fod yn rhan o'r PFA ar gyfer y TPS. At hynny, mae'r Adran o'r farn bod y trefniadau cyffredinol ar gyfer mynegrifo budd-daliadau yn deg, ac nid yw o'r farn bod hyn yn golygu bod athrawesau o dan anfantais yn y ffordd a awgrymir. Ymdriniodd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a ategodd y PFA â'r mater hwn yn fanwl a daeth i'r casgliad bod profiad yn dangos nad yw aelodau benywaidd yn fwy tebygol o gymryd seibiannau hir o weithio nag aelodau gwrywaidd.* |
| 73 – Ystyr "swm cymudol" (Cyfandaliadau) | Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai defnyddio'r term 'trosi' yn hytrach na 'chymudo' yn golygu bod y ddarpariaeth hon (sy'n caniatáu i aelodau ildio rhywfaint o'u pensiwn blynyddol yn gyfnewid am gyfandaliad uwch) yn haws i aelodau ei deall.<br>*Mae'r Adran yn cytuno y byddai'r newid hwn yn golygu bod y ddarpariaeth yn haws i'w deall ac aiff ati i ystyried newid y geiriad yn unol â hynny.* |

| | |
|---|---|
| 79 – Cyfrif ar wahân ar gyfer pob elfen o aelodaeth | Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder o fewn cyfriflenni buddiannau blynyddol o ran sut y bydd unrhyw Orchymyn Rhannu Pensiwn (yn dilyn setliad mewn ysgariad) yn effeithio ar bensiwn aelod.<br>*Noda'r Adran yr ymdrinnir â'r trefniadau ar gyfer cyfriflenni buddiannau gan reoliadau ar wahân a osodwyd o dan adran 14 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ond y gwnaiff ystyried, beth bynnag, sut y gellir darparu mwy o eglurder.* |
| 83-84 – Pensiynau ymddeol yn seiliedig ar oedran | Dadleuodd nifer o ymatebwyr yn erbyn y cynnydd yn yr Oedran Pensiwn Arferol (NPA) ac awgrymodd un y dylid aileirio'r rheoliadau hyn er mwyn sicrhau mai'r diwrnod hawl ar gyfer cael pensiwn ymddeol yn seiliedig ar oedran yw'r diwrnod y bydd aelodau yn cyrraedd 65 oed.<br>*Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr ymateb hwn, mae'r Adran o'r farn bod yr achos o blaid cynyddu'r Oedran Pensiwn Arferol eisoes wedi'i gyflwyno ac y gwnaed penderfyniad ynghylch y mater hwn yn gynharach yn ystod y broses ymgynghori. Noda hefyd y pryderon a godwyd ynghylch y ffaith bod oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid ac y bydd holl fuddiannau TPS yn gysylltiedig â'r oedran newydd pan fydd wedi newid. Hoffai'r Adran nodi'r cynigion a gyflwynwyd gan DWP o ran sut y caiff newidiadau i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (SPA) eu rheoli yn y dyfodol. Bydd y cynigion hyn yn sicrhau bod y broses yn gadarn a bod digon o amser i'w rhoi ar waith, a fydd yn osgoi gwneud newidiadau yn agos at oedran pensiwn gwreiddiol unigolyn.* |
| 83, 102 ac ati – Hawl i bensiwn ymddeol | Gofynnodd nifer o gyflogwyr a oedd yn bosibl darparu mwy o eglurder mewn rheoliadau o ran pryd y bydd seibiant mewn gwasanaeth wedi digwydd, yn arbennig yng nghyd-destun buddiannau wedi'u haddasu'n actiwaraidd.<br>*Mae'r Adran o'r farn bod y rheoliadau yn glir bod yn rhaid i'r gyflogaeth dan sylw ddod i ben er mwyn dechrau seibiant mewn gwasanaeth. Fodd bynnag, gwnaiff ystyried beth yn rhagor y gellir ei wneud mewn canllawiau ategol i ychwanegu eglurder yma.* |

| | |
|---|---|
| 99 - Hawl i bensiwn ymddeol cyn pryd | Cododd nifer o ymatebwyr bryderon bod geiriad y rheoliadau yn awgrymu bod y gofyniad i dalu iawndal gorfodol wedi'i ddiddymu.<br>*Gall yr Adran gadarnhau nad oes unrhyw newid polisi nac effaith yma, ymdrinnir â'r ddarpariaeth honno yn y rheoliadau ar wahân ar gyfer ymddeol cyn pryd yr ymgynghorir arnynt yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.*<br><br>Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r rheoliadau ddarparu mynediad awtomatig i bob aelod i iawndal ymddeol cyn pryd (PRC).<br>*Hoffai'r Adran nodi nad yw hyn yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad presennol gan mai mater cyflogaeth ydyw yn hytrach na mater pensiynau. Hynny yw, dylai'r unigolyn a'i gyflogwr ddod i benderfyniad ynghylch ei hawl i iawndal o dan amgylchiadau o'r fath. Rhydd y trefniadau ar gyfer PRC fframwaith ar gyfer defnyddio'r TPS er mwyn darparu iawndal o'r fath ond ni fwriedir iddynt bennu hawl ac erys hynny yn ôl disgresiwn y cyflogwr. Felly, nid yw'r Adran o'r farn bod newid o'r fath yn briodol ac nid oes ganddi unrhyw gynlluniau i'w gyflwyno.* |
| 135 - Ystyr "plentyn cymwys" | Cododd sawl ymatebwr gwestiynau ynghylch yr amod lle nad yw plentyn yn gymwys os caiff ei gynnal yn llwyr gan arian a ddarperir gan y Senedd, gan honni fod hynny'n ei gwneud yn annhebygol y byddai oedolion a oedd yn blant anabl i aelodau ymadawedig byth yn gallu manteisio ar fuddiannau dibynyddion.<br>*Noda'r Adran mai un o ddarpariaethau'r trefniadau presennol yw'r ddarpariaeth hon a bod ei hangen er mwyn osgoi 'ariannu dwbl' o arian a ddarperir gan y Trysorlys. Mae o'r farn bod y trefniant yn gweithio'n effeithiol ar hyn o bryd ac nad yw'n atal buddiannau rhag cael eu talu lle y bo'n briodol.*<br><br>Roedd un ymatebwr o'r farn y dylid ehangu cymhwysedd er mwyn caniatáu ar gyfer plant a gaiff eu geni o fewn tair blynedd o farwolaeth aelod, gan ganiatáu cyfnod galaru hwy a chan fod o fudd pan gaiff IVF ei ddefnyddio gan y cymar, y partner enwebedig neu'r partner sifil sy'n goroesi.<br>*Mae'r Adran yn cydnabod y pryder a godir yma ond hoffai nodi nad yw hyn yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ac nad yw wedi'i hargyhoeddi, beth bynnag, bod yr achos o blaid newid wedi'i brofi eto.* |

| | |
|---|---|
| 196 – Darparu cyfriflenni gwybodaeth am fuddiannau i aelodau | Cododd nifer o ymatebwyr bryderon o ran sut y caiff rhagamcan o bensiwn (hyd at oedran pensiwn) ei gyfrifo a'i gyfleu i aelodau.<br>*Noda'r Adran fod y Ddeddf yn darparu darpariaethau ar wahân ar gyfriflenni buddiannau a chadarnha y bydd yn sicrhau bod trefniadau'r TPS yn cydymffurfio â hwy. At hynny, os defnyddir rhagolygon o fuddiannau, bydd yn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn glir.* |
| Atodlen 3 - Hyblygrwydd | Ymdrinnir â materion a godwyd mewn perthynas â hyblygrwydd ac ymateb y Llywodraeth iddynt yn Atodiad C isod. |
| Atodlen 5, rhan 5, paragraff 14 - Talu buddiannau i aelodau sy'n trosglwyddo | Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod angen i'r rheoliadau ei gwneud yn gliriach y gall aelod sydd wedi pasio ei Oedran Pensiwn Arferol mewn perthynas â'i gyflog terfynol hawlio ei fuddiannau cyflog terfynol ar wahân i'w fuddiannau cyfartaledd gyrfa os na fydd yn gweithio ar yr adeg honno. Mae'r Adran yn cydnabod y sylwadau yma ac mae wedi diwygio'r rheoliadau er mwyn ceisio egluro'r sefyllfa yn well. |

# Atodiad C: Materion/themâu cyffredin a godwyd

**Llywodraethu**

1. Cyflwynodd chwe ymatebwr i'r ymgynghoriad sylwadau ar yr adran hon o'r rheoliadau, ac undebau athrawon oedd pob un o'r chwech. Yn gyffredinol, roedd llawer o'r ymatebion yn cyflwyno sylwadau am y polisi sy'n sail i'r rheoliadau, yn hytrach na'r rheoliadau eu hunain, ac felly roeddent yn ymdrin â materion a godwyd yn ystod cam cyntaf y broses ymgynghori dau gam hon.
2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion hynny yn canolbwyntio ar yr hyn a ystyrir fel diffyg manylder yn y rheoliadau o ran sut y bydd y Bwrdd Pensiynau a Bwrdd Cynghori'r Cynllun (SAB) yn gweithredu, h.y. bod y rheoliadau ar lefel rhy uchel ac nad oeddent yn cynnwys y manylion angenrheidiol i ddeall sut y byddai'r bwrdd yn gweithredu, a bod y rheoliadau yn parhau i roi gormod o annibyniaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol gan felly o bosibl danseilio rôl y Byrddau. Awgrymodd un sefydliad y dylid aileirio'r rheoliadau er mwyn adlewyrchu awgrym polisi diwygiedig, h.y. rhaniad 50/50 rhwng cynrychiolwyr cyflogeion a chynrychiolwyr cyflogwyr ar y bwrdd.
3. Yn arbennig, roedd ymatebion yn canolbwyntio ar y canlynol:
    - rôl yr Ysgrifennydd Gwladol a swyddogion yr Adran fel aelodau gweithredol o'r Bwrdd Pensiynau;
    - cylch gwaith cul a diffyg annibyniaeth y Bwrdd Pensiynau a'r SAB, yn arbennig anallu'r ddau fwrdd i bennu polisi pensiwn ehangach ac i weithredu fel corff negodi;
    - pryder o ran p'un a fyddai cyfansoddiad arfaethedig y byrddau yn caniatáu cynrychiolaeth effeithiol o ran buddiannau amrywiol yr aelodaeth ar lefel bwrdd;
    - cynigion amgen ar gyfer cylch gwaith a chyfansoddiad y SAB.

Ymateb y Llywodraeth

4. Noda'r Adran gefndir a sefyllfa gyfreithiol y Bwrdd Pensiynau a'r SAB. Nododd yr Arglwydd Hutton yr achos dros sefydlu Bwrdd Pensiynau a SAB ar gyfer pob un o gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Roedd o'r farn y dylai'r “Bwrdd” (Pensiynau), fel ei brif nod, fynd i'r afael â'r diffyg dull gweithredu safonol ar draws cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus y llywodraeth a rhoi hyder i aelodau'r cynllun, trethdalwyr ac eraill fod cynlluniau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon. Gwnaed argymhellion yr Arglwydd Hutton yn erbyn cefndir lle nad oedd gan lawer o gynlluniau'r gwasanaeth cyhoeddus adeg yr adolygiad sianelau cyfathrebu neu adrodd agored ac effeithiol - nid oedd y TPS mewn sefyllfa o'r fath.
5. Yn unol â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Arglwydd Hutton, mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynllun sefydlu Bwrdd Pensiynau a SAB. Mae prif swyddogaeth y Bwrdd Pensiynau yn

glir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol (y Ddeddf), lle nodir mai ei diben yw helpu "rheolwr y cynllun", yn yr achos hwn yr Ysgrifennydd Gwladol, i weinyddu'r cynllun yn effeithiol. Yn benodol, mewn perthynas â'r materion sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r cynllun pensiwn a rheoliadau cysylltiedig, ac ag unrhyw ofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae hefyd yn glir bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol barhau'n gyffredinol gyfrifol am reoli'r cynllun, ac am bennu polisi o fewn hynny.

6. Felly, nid yw'n briodol, nac yn bosibl i'r Adran ddarparu rolau amgen o fewn Rheoliadau'r TPS i'r Bwrdd Pensiynau na'r SAB; h.y. rolau nad ydynt yn cydymffurfio â'r hyn a nodir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i'r SAB wneud penderfyniadau ar faterion polisi. At hynny, mae'r trefniadau ar gyfer y ddau Fwrdd o fewn rheoliadau drafft y TPS yn cydymffurfio'n llawn â'r hyn a nodir yn Neddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

7. Mae'r Adran yn awyddus i sicrhau y gall y ddau Fwrdd gyflawni'r rolau y nodir ar eu cyfer yn y Ddeddf yn effeithiol, a bod cyfleoedd gan y Byrddau i ddylanwadu ar eu dulliau gweithredu a'u cyfansoddiad. Dyna pam bod y rheoliadau drafft wedi'u fframio fel ag y maent, h.y. er mwyn darparu'r fframwaith cyffredinol ond gadael rhywfaint o hyblygrwydd i'r Byrddau reoli eu dull gweithredu.

8. Serch hynny, mae'r Adran yn cydnabod pryderon ymatebwyr, ac er nad yw o'r farn bod angen newid yr hyn a ddarperir yn y rheoliadau drafft, bydd yn parhau i gynnwys rhanddeiliaid wrth bennu union fanylion y broses o sefydlu a rhedeg y Byrddau.

9. Yn olaf yn hyn o beth, hoffai'r Adran atgoffa rhanddeiliaid mai ychwanegu at y trefniadau presennol o fewn y TPS ar gyfer ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid ar faterion gweinyddol a materion polisi y bydd y Byrddau yn hytrach na'u disodli. Mae'r trefniadau hynny wedi gweithio'n llwyddiannus yn y gorffennol, ac mae'r Adran yn awyddus i ychwanegu atynt yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Yn y pen draw, y nod yw sicrhau bod gan bob grŵp cynrychioliadol lwybrau effeithiol y gallant eu defnyddio i leisio eu barn ar faterion gweinyddol a materion polisi.

## Mynediad/Cyflogaeth Gymwys

10. Roedd pob un o'r rheini a ymatebodd ar drefniadau mynediad yn croesawu'r cynnig i ehangu'r rheoliadau i alluogi, er enghraifft, athrawon a gyflogir gan Ymddiriedolaethau Aml Academi i fod yn aelodau o'r TPS. Roedd ymatebwyr hefyd yn croesawu'r rheoliadau arfaethedig mewn perthynas â'r Fargen Deg Newydd, er bod rhai wedi tynnu sylw at yr ymgynghoriad arfaethedig gan Drysorlys EM o ran p'un a fydd yn ofynnol i sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch ddefnyddio'r Fargen Deg Newydd, gan ofyn am eglurder mewn perthynas â rhai o'r trefniadau gweinyddol (er enghraifft, y trefniadau ar gyfer darparu gwarantau).

11. Fodd bynnag, cododd nifer sylweddol o'r ymatebwyr, gan gynnwys pob un o'r undebau athrawon a nifer o unigolion a chyflogwyr, bryderon o ran i ba raddau y mae'r trefniadau mynediad yn rheoliadau'r TPS yn cael eu diweddaru'n briodol mewn ymateb i'r ddarpariaeth addysgol gyfnewidiol. Yn arbennig, p'un a yw'n briodol parhau i gysylltu mynediad â'r math o gyflogwr dan sylw o gofio'r amrywiol fathau o sefydliadau sydd bellach yn rhan o'r sector addysg.

Ymateb y Llywodraeth

12. Mae'r Adran yn croesawu'r sylwadau a'r adborth gan ymatebwyr ar drefniadau mynediad a chyflogaeth gymwys. Bydd yn ymdrin â'r pryderon ynghylch eglurder darpariaethau ar gyfer y Fargen Newydd Deg o fewn y rheoliadau terfynol lle y bo'n bosibl, a bydd hefyd yn sicrhau y rhoddir canllawiau a chymorth priodol i gyflogwyr ac aelodau i ategu hynny. Mae'r Adran hefyd yn cydnabod y sylwadau ar sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a'r Fargen Newydd Deg ond hoffai nodi mai canlyniad ymgynghoriad y Trysorlys ar y mater hwn, yn y pen draw, fydd yn pennu beth y gellir ei gynnwys yn rheoliadau'r TPS ar eu cyfer.

13. Mae'r Adran hefyd yn cydnabod sylwadau a phryderon am faterion mynediad ehangach. Mae amrywiaeth o faterion cysylltiedig sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Mae'r Adran yn ystyried y materion hyn a bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar wahân unwaith y bydd wedi eu hystyried ymhellach.

## Hyblygrwydd/Dyletswyddau Cyflogwyr

14. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau yn y maes hwn yn croesawu'r darpariaethau yn ymdrin â hyblygrwydd o fewn y cynllun, er bod rhai yn amau p'un a oedd angen cymaint o amrywiaeth o hyblygrwydd ac ymarferoldeb rhai o'r trefniadau dan sylw. Honnodd un sefydliad bod cynnwys darpariaethau er mwyn prynu'r addasiad actiwaraidd i'r rheini ag Oedrannau Pensiwn Arferol dros 65 oed (cyfanswm o hyd at dair blynedd) yn arwydd bod yr Adran yn cydnabod nad yw'n briodol disgwyl i athrawon weithio y tu hwnt i 65 oed.

15. Cododd rhai ymatebwyr bryderon am y baich ychwanegol a oedd yn cael ei roi ar gyflogwyr, gan ddyfynnu hyblygrwydd y cynllun yn benodol, gan gyfeirio at yr angen am ganllawiau, cyngor a chymorth da a chlir. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at yr angen i sicrhau bod pob cyflogwr yn darparu gwybodaeth amserol o ansawdd da, gan y bydd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau y caiff y buddiannau pensiwn sydd wedi cronni, gan gynnwys hyblygrwydd, eu trin a'u cyflwyno'n effeithiol.

Ymateb y Llywodraeth

16. Mae'r Adran o'r farn y bydd yr hyblygrwydd newydd, o'i ystyried ar y cyd â'r darpariaethau ar gyfer pensiwn ychwanegol a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol, yn darparu amrywiaeth addas o opsiynau i gwmpasu anghenion a gofynion amrywiol pob aelod yn y cynllun diwygiedig. Mae pob hyblygrwydd a darpariaeth yn cynnig opsiwn gwahanol ac unigryw i'r aelodau wneud darpariaeth bensiwn ychwanegol, er enghraifft, mae'r opsiwn cronni cyflymach yn rhoi'r dewis i aelodau roi hwb byrdymor i'w cynilion pensiwn un flwyddyn ar y tro, ond bydd y darpariaethau ar gyfer cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yn parhau i ganiatáu i'r aelodau amrywio'r swm y byddant yn ei gynilo a phryd y byddant yn talu i mewn, yn ogystal â gwneud cais i fuddsoddi'r arian hwnnw mewn ffordd wahanol.

17. Mae'r Adran yn anghytuno â'r awgrym bod yr opsiwn prynu actiwaraidd yn dangos ei bod yn cytuno nad yw Oedrannau Pensiwn Arferol dros 65 oed yn briodol i athrawon. Bydd yr hyblygrwydd hwn mewn gwirionedd yn caniatáu i aelodau benderfynu ymddeol blwyddyn, dwy flynedd neu dair blynedd yn gynnar gyda phensiwn heb ei leihau ac fel y cyfryw, mae'n unigryw o gymharu â'r lleill, y mae

pob un ohonynt yn cynnwys cynilo symiau pensiwn yn hytrach na chynilo ar gyfer dyddiad ymddeol penodol. Er ei bod yn wir bod y ddarpariaeth hon yn fwy tebygol o ddenu'r rheini sydd eisoes ran o'r ffordd drwy eu gyrfa pan fyddant yn ymuno â'r cynllun diwygiedig, ac sydd eisoes wedi meddwl am ddyddiad ymddeol, mae'r Adran, serch hynny, o'r farn ei fod yn opsiwn gwerthfawr a allai apelio at unrhyw aelod.

18. Mae'r Adran yn cydnabod ei phryderon am y llwyth gwaith ychwanegol posibl i gyflogwyr. Wrth bennu'r rheoliadau/trefniadau drafft, mae wedi ceisio sicrhau y crëir cyn lleied o waith ychwanegol â phosibl. Er enghraifft, ar gyfer y rhan fwyaf o'r enghreifftiau o hyblygrwydd, y gofyniad yn syml fydd cyfathrebu â'r aelod a gweinyddwr y cynllun ac wedyn didynnu canran ychwanegol sefydlog o gyfraniadau o gyflog, sy'n debyg i'r hyn sydd eisoes yn digwydd ar gyfer pensiwn ychwanegol. Bydd yr Adran hefyd yn sicrhau bod gan gyflogwyr ganllawiau a chymorth addas er mwyn lleihau unrhyw faich ymhellach a sicrhau yr ymdrinnir ag achosion yn ddidrafferth.

19. Mae'r Adran yn cytuno y bydd sicrhau y caiff data cywir, amserol ac effeithiol eu darparu gan gyflogwyr yn rhan allweddol o roi'r cynllun diwygiedig ar waith yn llwyddiannus. Bydd yn gweithio'n agos â gweinyddwr y cynllun er mwyn sicrhau y caiff pob cyflogwr ei gefnogi a'i annog i ddarparu'r hyn sydd ei angen. Nid yw'r Adran yn ystyried bod angen unrhyw bwerau ychwanegol yn rheoliadau'r TPS er mwyn cyflawni hynny. Yn hyn o beth, hoffai'r Adran nodi bod gan y Rheoleiddiwr Pensiynau bwerau i roi cyfarwyddyd neu i godi dirwy ar gyflogwyr sy'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad o ran gwybodaeth a chyfraniadau, a bod Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (Atodlen 4 yn benodol) yn rhoi rôl ehangach i'r Rheoleiddiwr wrth reoli'r materion hynny (gan gynnwys gofynion data) ar gyfer cynlluniau'r sector cyhoeddus. Mae'r Adran o'r farn bod y llwybr hwn yn llwybr priodol ar gyfer ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio, yn wir bydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Rheoleiddiwr am unrhyw ddigwyddiadau o'r fath, a all wedyn roi cyfarwyddyd neu godi dirwy ar y cyflogwyr dan sylw.

## **Materion Cydraddoldeb**

20. Cododd un ymatebwr nifer o faterion cydraddoldeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

21. Mae'r materion/honiadau ar y cyfan yn ailadrodd materion/honiadau a godwyd yn ystod camau cychwynnol yr ymgynghoriad ac maent yn cynnwys y canlynol:

- cwmpas Asesiad y Trysorlys o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac awgrymiadau ar gyfer gwaith dadansoddi pellach;
- bod tebygolrwydd uchel iawn y bydd y diwygiadau yn gwahaniaethu ar sail rhyw, e.e. tuag at ferched o fewn TPS a thuag at ddynion yn y gwasanaethau milwrol;
- nad oedd Asesiad yr Adran o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn addas at y diben, oherwydd digonolrwydd a maint y data a ddefnyddiwyd;
- bod cynyddu'r Oedran Pensiwn Arferol yn gwahaniaethu yn erbyn athrawon ifancach;
- y bydd achosion o wahaniaethu yn erbyn athrawesau, athrawon anabl, ac athrawon duon a lleiafrifoedd ethnig, neu y byddant o dan anfantais

ddifrifol, o ganlyniad i'r newidiadau i bensiynau athrawon, yn benodol yr hyblygrwydd a fanylir yn y rheoliadau - gan ei bod yn debygol y byddant yn y bandiau cyflog is ac na fyddant yn gallu fforddio'r hyblygrwydd;

- y gallai trefniadau CARE arwain at achosion o wahaniaethu ar sail oedran, rhyw ac ethnigrwydd;
- y gallai'r broses o ailbrisio cyfrifon aelodau gohiriedig arwain at achosion o wahaniaethu ar sail rhyw gan fod merched yn dueddol o gymryd seibiannau gyrfa i fagu plant;
- cwestiynau o ran p'un ai'r gyfradd gronni a'r ffactor ailbrisio a gynigir sy'n cynnig y cydbwysedd tecaf i fwyafrif yr aelodau.

Ymateb y Llywodraeth

22. Mae'r Llywodraeth yn parhau o'r farn ei bod wedi cydymffurfio'n briodol â'i rhwymedigaethau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth ddatblygu cynigion ar gyfer diwygio pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus a diwygiadau i'r TPS. Mae hefyd o'r farn bod yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cofnodi'r gwaith dadansoddi manwl a chadarn a wnaed mewn perthynas â'r effeithiau posibl ar gydraddoldeb.

23. Codwyd llawer o'r pryderon a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gyda'r Adran eisoes. Mae'r Adran wedi cydnabod y pryderon, wedi rhoi ystyriaeth bellach i faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, ac wedi cyhoeddi atodiad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y diwygiadau i'r TPS (a gynhaliwyd yn wreiddiol pan benderfynwyd ar y PFA). Rhoddodd yr atodiad fanylion am y meysydd hynny lle yr ystyriwyd bod cynigion ar gyfer gweithredu yn codi materion eraill. Rhwng yr Asesiad gwreiddiol o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r atodiad, mae'r Adran o'r farn ei bod wedi rhoi sylw dyledus i faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

24. Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adran roi sylw dyledus i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu, i hybu cyfle cyfartal ac i feithrin cydberthnasau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau.

25. Mae'r Adran wedi defnyddio'r holl ddata sydd ar gael ac wedi ymgynghori'n helaeth ar y cynigion ac ar yr effeithiau ar gydraddoldeb. Mae'r Adran wedi cydnabod nad oes unrhyw ddata ar gael neu mai dim ond data cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer rhai grwpiau penodol â nodweddion gwarchodedig ac mae'n cymryd camau gyda gweinyddwr y cynllun i ymdrin â hyn yn y dyfodol. Nid yw'r mater hwn yn unigryw i'r TPS, ac yn y pen draw, rhaid i unigolion roi data o'r fath o'u gwirfodd er mwyn i ni allu eu casglu. Nid yw'r ffaith nad oes data cyflawn ar gael yn golygu nad yw'r dadansoddiad cydraddoldeb a gynhaliwyd yn ddilys ac mae'r Adran wedi ystyried y dystiolaeth a'r safbwyntiau sydd ar gael wrth lunio ei chasgliadau.

26. Nid yw effaith y cynnydd o ran oedran pensiwn arferol yn anghymesur ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol, fel y rheini o gefndir lleiafrifoedd ethnig, ac yn hytrach, mae'n adlewyrchu gwahaniaethau yng nghyfansoddiad y gweithlu ar wahanol oedrannau. O fewn hynny, caiff athrawon o gefndir lleiafrifoedd ethnig eu cynrychioli i raddau helaethach yn y grwpiau oedran

ifancach; fodd bynnag, 7% yw'r gwahaniaeth mwyaf. At hynny, mae'r penderfyniad i ddiogelu'r rheini sydd o fewn 13.5 mlynedd o ymddeol wedi'i anelu at osgoi rhoi aelodau hŷn o dan anfantais annheg, drwy sicrhau bod gan unrhyw un yr effeithir arno ddigon o amser i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer newidiadau cyn ymddeol. Fel y cyfryw, ystyrir ei fod yn gam priodol a chymesur.

27. Ystyriwyd y pryderon a godwyd o ran hyblygrwydd ychwanegol yn llawn fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dengys tystiolaeth fod athrawon o'r amrediad bandiau enillion cyfan yn defnyddio'r cyfleuster pensiwn ychwanegol presennol a bod yr enghreifftiau newydd o hyblygrwydd a gaiff eu cynnig yn cynnwys amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i athrawon fanteisio arnynt. Felly, mae'r Adran o'r farn bod yr enghreifftiau ychwanegol o hyblygrwydd yn hyrwyddo'r cyfle i gynyddu cynilion pensiwn ymhellach i aelodau o bob grŵp, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig penodol.

28. Ystyriwyd y pryderon a godwyd o ran seibiannau gyrfa hefyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Daeth yr Adran i'r casgliad bod y data sydd ar gael yn dangos nad oes llawer o wahaniaeth o ran patrwm hyd y seibiant mewn gwasanaeth rhwng dynion a merched sy'n dychwelyd i'r gwaith. Yn ogystal, mae'r Adran yn parhau i fonitro data eithrio ac ni welwyd unrhyw gynnydd sylweddol o ganlyniad i'r diwygiadau hyd yn hyn. Dengys y data hefyd er bod mwy o ferched yn eithrio na dynion fod y gwahaniaeth hwn yn parhau'n gymesur â rhaniad y gweithlu rhwng y rhywiau. Mae'r Adran yn parhau o'r farn bod y darpariaethau o ran seibiannau mewn gwasanaeth yn gymesur ac yn rhesymol.

29. Ystyriwyd effaith gyffredinol cyflwyno trefniadau CARE, o ran y newidiadau i'r adeg y bydd buddiannau ar gael yn llawn a chronni buddiannau, hefyd yn fanwl yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nid yw'r Adran yn derbyn y bydd effaith negyddol ar unigolion ar gyflogau isel yn benodol, ac felly aelodau benywaidd neu aelodau o grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol, fel yr anabl. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Adran yn argyhoeddedig y bydd pob aelod yn dal i allu cronni pensiynau da sy'n gymesur â'u henillion ac sy'n cymharu'n ffafriol â'r pensiynau gorau sydd ar gael mewn mannau eraill. Cred hefyd y bydd y trefniadau yn sicrhau bod yr unigolion ar gyflogau isel yn cael arenillion tebyg ar eu cyfraniadau i'r rheini ar gyflogau uwch neu sy'n datblygu'n gyflym drwy eu gyrfa, nad yw'n wir o dan y trefniadau cyflog terfynol.

30. O fewn yr uchod, cred yr Adran mai'r gyfradd gronni o 1/57 a'r ffactor ailbrisio o CPI +1.6% sy'n darparu'r cydbwysedd gorau a thecaf o ran sut y bydd pensiwn yn cronni i athrawon, ac y bydd yn diwallu anghenion yr aelodau cyffredinol yn briodol. Bu hyn yn destun cryn drafodaeth ac ystyriaeth wrth bennu'r PFA ar gyfer y TPS a gwrandawodd yr Adran ar safbwyntiau rhanddeiliaid wrth bennu'r dull gweithredu i'w ddilyn.

31. Yn y pen draw, mae'r Adran o'r farn bod y cynigion ar gyfer diwygio'r TPS yn deg ac yn gymesur wrth gyflawni nod y polisi, sef sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy ac yn deg i aelodau a'r trethdalwr. Fodd bynnag, bydd yr Adran yn parhau i sicrhau y caiff y safbwyntiau a gyflwynir eu hystyried yn llawn wrth lunio'r rheoliadau/deddfwriaeth derfynol.

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn: reformedteacherspension.CONSULTATION@education.gsi.gov.uk neu www.education.gov.uk/contactus

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein yn https://www.education.gov.uk/consultations

Reference: DFE-00072-2014